Cyflwyno'r DDEDDF TRWYDDEDU

Rhoi gwybodaeth i chi yn ystod y broses o weithredu Deddf Trwyddedu 2003. TACHWEDD 2004

DCMS yn cyhoeddi ffioedd drafft

Mae lefelau ffioedd arfaethedig y gyfundrefn drwyddedu newydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghori cyhoeddus. Bydd y ffioedd yn cynnwys costau gweinyddol, archwilio a gorfodaeth dan Ddeddf 2003. Mae manylion llawn am y lefelau ffioedd arfaethedig ar gael ar wefan y DCMS: www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment <http://www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment>. Gellir e-bostio unrhyw ymateb i feeconsultation@culture.gsi.gov.uk neu ei anfon at: The Alcohol and Entertainment Licensing Branch, Tourism Division, 3rd Floor, DCMS, 2-4 Cockspur Road Street, London, SW1Y 5DH. **Mae'r ymgynghori'n dod i ben ar 23 Rhagfyr.**

Cipolwg ar y prif ffioedd drafft

Band*		A	B	C	D	E
Gwerth ardrethol annomestig		Dim-£4,300	£4,301-£33,000	£33,001-£87,000	£87,001-£125,000	£125,001 +
Trwydded Mangre a Thystysgrif Mangre Clwb	Addasu (yn cynnwys amrywiadau); cais newydd; amrywiad	£80	£150	£250	£350	£500
	Ffi blynyddol	£40	£125	£175	£200	£225
Trwydded bersonol		**£37**	Hysbysiad digwyddiad dros dro			**£21**

*bydd graddfa ar wahân ar gyfer digwyddiadau mawr (6,000+ o bobl)

Colofn Caborn

"Beth fydd cost trwydded? Mae'r cwestiwn yma wedi cael ei ofyn i mi droeon ers i mi gael fy mhenodi'n Weinidog Trwyddedu ac rwy'n gwybod mor bwysig yw hyn i fusnesau a chlybiau aelodau, awdurdodau lleol ac eraill sy'n ceisio cynllunio cyllidebau ac adnoddau. Rwyf felly'n falch i allu cyhoeddi'r lefelau ffioedd arfaethedig ac rwy'n croesawu barn pawb fydd yn cael ei effeithio ganddynt.

Nid yw'n bosibl cyfrifo'r costau'n union wrth sefydlu cyfundrefn newydd, ond mae'r hyn a gynigiwn yn seiliedig ar ein hamcangyfrifon gorau o'r costau ar ôl cysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol. Rwyf yn hyderus y byddant yn galluogi awdurdodau lleol gyllido eu swyddogaethau trwyddedu a'u swyddogaethau cysylltiedig fel awdurdodau sy'n gyfrifol am hyn dan y Ddeddf. Mae'n bwysig cofio na fydd ffioedd yn cynnwys dyletswyddau statudol presennol, fel iechyd a diogelwch neu iechyd yr amgylchedd, y mae'r awdurdodau lleol eisoes yn derbyn cyllid ar eu cyfer. Gall ffioedd gynnwys gwaith ychwanegol yn unig yn y meysydd hyn yn sgil Deddf 2003 ac ni ellir, yn ôl y gyfraith, gael eu defnyddio i godi refeniw, na chysylltu'r costau â datblygu economi'r nos ehangach.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi dweud wrthyf eu bod yn poeni na fydd y ffioedd yn cynnwys costau gorfodaeth. Nid yw hynny'n wir. Tra bydd y gyfundrefn newydd yn llawer llai biwrocrataidd ac yn llawer mwy effeithiol, bydd cyfanswm lefel yr incwm o ffioedd yn ystod y pedair blynedd nesaf yn debyg i'r gyfundrefn bresennol. Rydym ni'n credu y bydd hyn yn rhyddhau adnoddau sylweddol y gall awdurdodau eu defnyddio ar eu hymdrech gorfodaeth. Ynghyd â'r arbedion a ragwelir o ran yr amser mae'r heddlu'n ei dreulio'n gwneud gwaith gweinyddol o'i gymharu â'r hen brosesau trwyddedu, rydym yn amcangyfrif, y gallai £80 miliwn fod ar gael ar gyfer gorfodaeth, dros y tair blynedd gyntaf o'i weithredu'n llawn, arian a oedd yn flaenorol yn cael ei wario ar weinyddu a biwrocratiaeth.

Ni yw lefelau'r ffioedd yn caniatáu camau rheolaidd o ran archwilio a gorfodaeth. Yn hytrach, maent yn adlewyrchu'r dull a nodir yn y Canllawiau ar gyfer gorfodaeth wedi'i dargedu, yn seiliedig ar wybodaeth leol am unrhyw eiddo lle mae problemau. Felly bydd y refeniw dros ben yn ystod y cyfnod hwn y gellir ei ddefnyddio i gyfrannu tuag at gychwyn y system newydd.

Bydd y ffioedd trwyddedu'n llawer llai na'r gyfundrefn bresennol i'r rhai hynny sy'n dymuno chwarae cerddoriaeth fyw a mathau eraill o adloniant wedi'i reoleiddio. Ac fe fydd pob busnes yn elwa o gael gwared â'r broses adnewyddu oedd yn cymryd cymaint o amser a'r costau cysylltiedig ar gyfer gweinyddu a chyngor proffesiynol.

Rwyf yn credu ein bod wedi paratoi cynigion ffioedd sy'n deg ac sy'n seiliedig ar amcangyfrif realistig o gostau'r gyfundrefn newydd. Er mwyn sicrwydd pellach, rydym wedi ymrwymo i gael adolygiad blynyddol unwaith bydd y system ar waith ac rydym yn fodlon addasu lefelau ffioedd pe bai angen. ■

Bydd pob rhifyn o Cyflwyno'r Ddeddf Trwyddedu yn cynnwys 'Cwestiynau Cyffredin'. Yn y rhifyn hwn byddwn yn trafod trwyddedau personol a chymwysterau

C. Beth yw diben trwydded bersonol?

A. Mae'n awdurdodi unigolyn gyflenwi alcohol, neu'n awdurdodi i alcohol gael ei gyflenwi, yn unol â thrwydded mangre neu hysbysiad digwyddiad dros dro.

C. A oes angen i'r holl staff yn fy nhŷ tafarn gael trwydded bersonol?

A. Nac oes. Ar wahân i'r goruchwyliwr mangre dynodedig (DPS), nid yw'n ofynnol i eraill gael trwydded bersonol er mwyn gweithio mewn unrhyw fangre drwyddedig. Er hynny, rhaid i unrhyw alcohol sy'n cael ei gyflenwi dan y drwydded mangre gael ei wneud neu ei awdurdodi gan yr unigolyn sydd â'r drwydded bersonol.

C. Oes raid cael deiliad trwydded bersonol/DPS ar y safle er mwyn awdurdodi gwerthu alcohol.

A. Nid oes unrhyw beth yn Neddf 2003 sy'n ei gwneud yn ofynnol i DPS fod ar y safle bob tro y bydd alcohol yn cael ei werthu. Ond yr hyn fydd yn hanfodol yw bod modd cysylltu â'r DPS, yn arbennig pe bai problemau'n codi yn y fangre.

Nid yw'r ffaith bod pob cyflenwad o alcohol yn gorfod cael ei awdurdodi gan ddeiliad trwydded bersonol awdurdodi, yn golygu mai dim ond deiliad trwydded bersonol sy'n gallu ei werthu neu eu bod yn gorfod bod yn bresennol eu hunain bob tro y gwerthir alcohol. Gall deiliad trwydded bersonol, er enghraifft, awdurdodi aelodau o staff i werthu alcohol yn ystod y nos. Dylid disgwyl y byddai'r deiliad trwydded bersonol ar gael ar y safle, ond ni fyddai'n rhaid iddo/i fod yn bresennol bob tro y gwerthir alcohol. Er hynny, ni fydd y deiliad trwydded bersonol yn gallu osgoi cyfrifoldeb am weithredoedd y rhai y mae'n eu hawdurdodi i werthu'r alcohol. Yn y pendraw, gan y llysoedd fydd y gair olaf ynglŷn â phenderfynu a fyddai amlder neu hyd cyfnod yr absenoldeb yn golygu na allai'r deiliad trwydded bersonol, mewn gwirionedd fod wedi awdurdodi'r gwerthiant.

C. A ddylai trwyddedai gyflogi mwy nac un deiliad trwydded bersonol?

A. Mae hwn yn benderfyniad gweithredol i'r deiliad trwydded bersonol. Hwyrach y bydd trwyddedai am gael mwy nac un deiliad trwydded bersonol rhag ofn y bydd angen penodi DPS newydd ar fyr rybudd ac er mwyn cael mwy o hyblygrwydd wrth gyflawni'r hyn sy'n ofynnol, hynny yw, bod alcohol yn cael ei werthu neu wedi'i awdurdodi gan ddeiliad trwydded bersonol bob tro.

Nod hyfforddiant trwydded bersonol yw sicrhau bod deiliaid trwydded yn ymwybodol o gyfraith trwyddedu a'r cyfrifoldebau cymdeithasol ehangach wrth werthu alcohol. Gallai rhai trwyddedai felly ystyried ei fod yn briodol i gael mwy nac un deiliad trwydded bersonol er mwyn hyrwyddo un neu ragor o'r pedwar amcan trwyddedu. Dylid pwysleisio er hynny, nad yw trwydded bersonol yn gymhwyster sy'n gysylltiedig â chymhwysedd busnes a dylid ystyried mathau eraill o hyfforddiant ochr yn ochr â'r drwydded bersonol.

C. Ydw i'n gymwys i gael trwydded bersonol?

A. Er mwyn bod yn gymwys i gael trwydded bersonol rhaid i chi fod yn 18 oed neu fwy; heb fforffedu trwydded bersonol o fewn pum mlynedd cyn gwneud y cais; heb gael eich cyhuddo o unrhyw drosedd perthnasol neu arall; a rhaid i chi feddu cymhwyster trwyddedu wedi'i achredu.

C. Sut mae cael y cymhwyster angenrheidiol ar gyfer trwydded bersonol?

A. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn achredu cymwysterau trwyddedu a'r cyrff sy'n gallu eu dyfarnu. Mae cyrsiau'n cael eu datblygu wrth i ni gyflwyno'r wybodaeth hon, ond nid oes unrhyw gwrs wedi'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd manylion am gymwysterau achrededig a chyrff fydd yn dyfarnu ar gael ar wefan y DCMS maes o law. Disgwylir i'r Ysgrifennydd Gwladol nodi safonau cyffredin a theg ar gyfer cymwysterau a chyrff dyfarnu gan ei gwneud yn ofynnol eu bod yn cael eu hachredu gan yr Awdurdod Cymwysterau a'r Cwricwlwm (QCA) neu Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC).

C. Sut mae newid fy nhrwydded bresennol gan ynadon yn drwydded bersonol?

A. Mae'r Ddeddf yn sicrhau darpariaeth drosiannol fel y gall deiliaid trwydded ynadol wneud cais am drwydded bersonol heb fod angen cael cymhwyster trwyddedu. Bydd y darpariaethau'n berthnasol i geisiadau a wneir rhwng 7 Chwefror 2005 a 6 Awst 2005. Mae'r rhain yn cydnabod bod deiliaid trwydded ynadol eisoes wedi bodloni'r ynadon trwyddedu eu bod yn 'unigolion priodol a chymwys' i werthu alcohol. Mae manylion am yr hyn sy'n ofynnol wrth wneud cais ar gael ar wefan y DCMS.

C. Ydi hi'n bosibl i mi wneud cais am drwydded bersonol newydd yn ystod y cyfnod trosiannol?

A. Gall unigolyn nad yw'n ddeiliad trwydded ynadol wneud cais am drwydded bersonol yn unol â darpariaethau Adran 6 o'r Ddeddf. Mae unrhyw drwydded bersonol sy'n cael ei rhoi yn dod i rym yn syth. Er hynny, nid oes unrhyw rym ymarferol i awdurdod yn sgil y drwydded tan yr ail ddiwrnod penodedig pan fydd trwyddedai mangre yn dod i rym a darpariaethau'r Ddeddf wedi'u gweithredu'n llawn.

Mae mwy o wybodaeth am drwyddedau personol ar gael yn Adran 6 o'r Ddeddf, Rhan 3 o Atodlen 8 y Ddeddf a Rhan 4 o'r Canllawiau.

Mae'n bryd cymryd sylw

Mewn ymgyrch debyg i'r un oedd yn cyd-fynd ag adnewyddiadau Brewster, yn fuan bydd llysoedd ynadon dechrau rhoi hysbysiadau i bawb sy'n gwneud cais am "drwyddedau achlysurol" a "chaniatâd achlysurol" dan y system drwyddedu bresennol, er mwyn tynnu eu sylw at y newidiadau dan Deddf Drwyddedu 2003. Bydd y gyfundrefn drwyddedu newydd yn symleiddio'r system bresennol ar gyfer trwyddedau achlysurol a chaniatâd achlysurol a roddir mewn cysylltiad â thrwyddedu alcohol ac adloniant cyhoeddus tymor byr, yn un system "llai dwys" ar gyfer gweithgareddau dros dro a ganiateir. Bydd y darpariaethau newydd yn berthnasol i gyflenwi alcohol, darparu adloniant wedi'i reoleiddio a hefyd i ddarparu lluniaeth yn hwyr y nos.

Effaith y newidiadau hyn fydd lleihau'r baich rheoleiddiol ar ddigwyddiadau bach, dros dro, sy'n annhebygol o godi problemau. Bydd o fantais arbennig i grwpiau a chyrff cymunedol, sy'n trefnu digwyddiadau sy'n cynnwys gweithgareddau trwyddedadwy, fel bar mewn ffair ysgol. Prif nodwedd gweithgareddau dros dro a ganiateir yw nad oes angen awdurdodaeth o'r fath. Mae'r system yn ymwneud â hysbysu digwyddiad, drwy roi hysbysiad digwyddiad dros dro (TEN), o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn i'r digwyddiad dros dro gychwyn, i'r awdurdod trwyddedu perthnasol (gan amlaf yr awdurdod lleol lle cynhelir y digwyddiad dros dro) a'r heddlu. Mae rhai cyfyngiadau yn berthnasol i ddigwyddiadau dros dro, hynny yw:

- Uchafswm nifer y bobl sy'n bresennol ar unrhyw un adeg (dim mwy na 499)
- Nifer o weithiau y gall unigolyn ("defnyddiwr mangre") roi hysbysiad digwyddiad dros dro (50 gwaith y flwyddyn ar gyfer deiliad trwydded bersonol a 5 gwaith y flwyddyn i bobl eraill).
- Nifer o weithiau y gellir rhoi hysbysiad digwyddiad dros dro mewn perthynas ag unrhyw fangre arbennig (12 gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr).
- Hyd o ran amser y gall digwyddiad barhau (96 awr).
- Cyfanswm hyd cyfnodau sy'n cynnwys hysbysiadau digwyddiad dros dro mewn unrhyw fangre unigol (15 diwrnod).

Dan unrhyw amgylchiadau eraill, byddai angen trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb. Felly, er enghraifft, bydd pobl sydd am drefnu digwyddiadau sy'n parhau am wythnos, neu ddigwyddiadau ar gyfer mwy na 499 o bobl, angen trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb. Rhagwelir y rhyddheir y Rheoliadau drafft ynghylch hysbysiadau digwyddiad dros dro ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ym Mawrth 2005.

I gael mwy o wybodaeth am weithgareddau dros dro a ganiateir, ewch i www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment/licensing_act_2003.

AMSERLEN ARFAETHEDIG AR GYFER Y NEWIDIADAU

10 Gorffennaf 2003	7 Gorffennaf 2004	15 Medi 2004	4 Tachwedd 2004	10 Tachwedd 2004	23 Rhagfyr 2004	7 Ionawr 2005	7 Chwefror 2005	Mawrth 2005	Tachwedd 2005
→	→	→	→	→	→	→	→		
cafwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Trwyddedu 2003.	DCMS yn cyhoeddi Canllawiau dan adran 182 o'r Ddeddf. Awdurdodau trwyddedu'n dechrau paratoi datganiadau polisïau ac ymgynghori arnynt.	DCMS yn cychwyn ymgynghori ar reoliadau drafft (ac eithrio ffioedd).	DCMS yn cychwyn ymgynghori ar ffioedd.	Ymgynghori ar reoliadau drafft (ac eithrio ffioedd) yn dod i ben.	Ymgynghori ar ffioedd yn dod i ben.	Cychwyn 'cyfnod tair blynedd'. Rhaid i Awdurdodau Trwyddedu fod wedi cyhoeddi eu datganiad polisi trwyddedu erbyn y dyddiad hwn.	Y Dydd a Enwyd – 1af. Awdurdodau trwyddedu'n dechrau prosesu ceisiadau.	Ymgynghori ar reoliadau drafft ar weithgareddau dros dro a ganiateir.	Y Dydd a Enwyd – 2il. Hen ddeddfau trwyddedu'n dod i ben. Trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb newydd yn dod i rym

Trwyddedu alcohol heddiw

Ar 27 Hydref cyhoeddodd y DCMS y data ystadegol mwyaf cynhwysfawr yn ymwneud â'r sefyllfa trwyddedu alcohol yn Lloegr a Chymru. Mae'r bwletin yn rhan o'r cylch adrodd tair blynedd diweddaraf ac mae'n cynnwys nifer y mangre trwyddedig, tystysgrifau oriau arbennig, caniatâd arbennig, caniatâd achlysurol, tystysgrifau plant, a thystysgrifau sydd wedi'u diddymu yn y deuddeg mis diwethaf hyd at ddiwedd Mehefin 2004. Cesglir ystadegau o gofrestri trwyddedu presennol llysoedd ynadon ac mae'n rhoi bras olwg werthfawr ar drwyddedu alcohol, y gellir ei gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Data allweddol o adroddiad 2003/2004:

- Cyfanswm nifer y mewndrwyddedau ar 30 Mehefin 2004 oedd 113,000, oddeutu 5,700 (5 y cant) yn fwy na deuddeng mlynedd yn ôl ond gostyngiad o tua 1,900 (2 y cant) ers 2003. Mae tueddu graddol tuag i fyny yn parhau er gwaethaf rhai amrywiadau bach.
- Nifer yr alldrwyddedau ar 30 Mehefin 2004 oedd 46,600. Mae'r nifer hwn wedi amrywio ychydig yn y blynyddoedd diwethaf ond heb unrhyw duedd amlwg.
- Roedd ychydig dros 5,00 o geisiadau newydd ar gyfer mewndrwyddedau ac o gwmpas 2,950 o geisiadau newydd ar gyfer alldrwyddedau yn y flwyddyn hyd at Fehefin 2004. Yn y naill achos a'r llall dyfarnwyd 19 allan o bob 20 cais.
- Diddymwyd tua 350 trwydded yn y flwyddyn hyd at Fehefin 2004, ac o blith y rheini roedd 270 yn fewndrwyddedau.





- Ar 30 Mehefin 2004 roedd 12,200 o dystysgrifau Oriau Arbennig mewn grym. Yn ystod y deuddeng mis blaenorol dyfarnwyd bron i 1,900 o dystysgrifau newydd.
- Dyfarnwyd 55,000 caniatâd arbennig i 25,000 o sefydliadau.

Pan fydd Deddf Drwyddedu 2003 yn weithredol, bydd yn ofynnol i awdurdodau trwyddedau gadw cofrestr wybodaeth, a nodir yn rhan 8 ac Atodlen 3 o Ddeddf 2003 yn ogystal â Rheoliadau, fydd yn cynnwys cofnod o bob trwydded mangre, tystysgrif mangre clwb a thrwydded bersonol a roddwyd ganddo, a phob hysbysiad digwyddiad dros dro mae'n ei dderbyn. Bydd y data hwn yn darparu gwybodaeth ystadegol hanfodol ar effaith y Ddeddf Drwyddedu.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i wefan y DCMS: www.culture.gov.uk/global/research.

Bydd y data nesaf yn cael ei gyhoeddi yn Hydref 2007.

Y Wybodaeth ddiweddaraf am drwyddedu

Yn ystod wythnos gyntaf Tachwedd bydd Sefydliad Cadw Tafarn Prydain a Chymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain yn cyhoeddi 'taflen ffeithiau' trwyddedu am ddatganiadau drafft polisi trwyddedu awdurdodau trwyddedu. Hon yw'r gyntaf o ddwy daflen ffeithiau sydd wedi'u hanelu i roi cymorth ac arweiniad i drwyddedai drwy'r broses drwyddedu. Mae'n pwysleisio'r pwysigrwydd o ymateb i ymgynghoriadau awdurdodau trwyddedu ar bolisïau drafft ac mae'n rhoi cyngor i drwyddedai ynglŷn â sut i ymateb a beth ddylent fod yn chwilio amdano. Bydd y daflen ffeithiau ar gael ar wefan BII: www.bii.org, ac mae'n bosibl cael copi caled drwy ffonio: 01276 684 449.

Bydd yr ail daflen ffeithiau'n canolbwyntio ar y Rheoliadau a bydd yn cael ei chyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Bydd y Mesur hefyd yn paratoi 2il argraffiad o 'Sut i wneud y gorau o'r Ddeddf Drwyddedu – canllawiau i drwyddedai'. Yn y cyfamser, mae argraffiad cyntaf y canllawiau ar gael i'w lwytho i lawr o'u gwefan.

Awdurdod Diwydiant Diogelwch (SIA) – Creu amgylchedd mwy diogel yn y nos

Dan Ddeddf Diwydiant Diogelwch Preifat 2001, mae angen i rai pobl sy'n gweithio yn y diwydiant diogelwch preifat yn Lloegr a Chymru, gan gynnwys yr holl oruchwylwyr drysau mewn tafarndai a chlybiau, gael eu trwyddedu gan yr SIA. Mae rhai eithriadau i'r gofyniad hwn, fel y rhai sy'n ymwneud â mangre sy'n llwyfannu dramâu (e.e. theatrau), sy'n dangos ffilmiau neu glybiau â thystysgrif mangre clwb. Mae'r dasg o gyflwyno trwyddedau yr SIA ar gyfer goruchwylwyr drysau ar hyn o bryd yn digwydd yn raddol ar sail ranbarthol, a bydd yn cael ei weithredu'n llawn erbyn 11 Ebrill 2005.

Dywedodd Swyddogion y Swyddfa Gartref yn y Senedd wrth i Ddeddf 2001 gael ei phasio nad yw trwyddedau yr SIA yn berthnasol i bobl sy'n gwneud dyletswyddau diogelwch nad yw'n rhan o'u prif gyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys trwyddedai a rheolwyr bar sy'n ymateb i ddigwydd sydyn neu annisgwyl yn eu mangre. Nid oes angen i stiwardiaid ac unigolion eraill sydd â rôl o gyfeirio neu gasglu tocynnau gan y rhai sy'n ymweld â'r mangre yn hytrach nac ymwneud â gweithgaredd diogelwch, gael eu cofrestru gyda'r SIA.

Mae amcanion sy'n gorgyffwrdd yn sylweddol ar gyfer yr SIA, awdurdodau lleol, yr heddlu a thrwyddedai, wrth hyrwyddo diogelwch cyhoeddus dan y gyfundrefn newydd. Wrth i ganol trefi a dinasoedd fynd yn fwyfwy poblogaidd, mae gwasanaethau'r heddlu'n rhoi mwy o bwyslais ar greu amgylchedd nos mwy diogel. Dan drwyddedau'r SIA rhagwelir y bydd goruchwylwyr drysau sydd wedi'u hyfforddi'n broffesiynol yn darparu proffil uwch o sicrwydd a diogelwch. Mae trwyddedai mewn risg o gyflawni trosedd os ydynt yn defnyddio goruchwylwyr drysau sydd heb drwydded os yw'n ofynnol gwneud hynny yn ôl eu trwydded dan Ddeddf Drwyddedu 2003.

Mae'r SIA hefyd yn gweithio ar y cyd â swyddogion trwyddedu, gan gael canlyniadau rhagorol. Er enghraifft, yn ddiweddar cyfarfu'r SIA â Grŵp Swyddogion trwyddedu Cernyw ac roeddent yn gallu rhoi gwybodaeth, ateb cwestiynau a gwrando ar bryderon ac awgrymiadau pobl leol. Mewn achosion lle bo awdurdodau lleol wedi gweithio mewn partneriaeth â'r SIA ynghylch pryderon lleol, y diwydiant twristiaeth, neu broblemau sy'n wynebu unigolion wrth geisio cael trwydded, mae'r niferoedd sy'n ceisio am drwyddedau wedi cynyddu'n ddramatig.

I gael mwy o wybodaeth am y Ddeddf Diwydiant Diogelwch Preifat, a sut mae'n effeithio arnoch, ewch i wefan yr SIA: www.the-sia.org.uk neu anfonwch e-bost: info@the-sia.org.uk; neu ffoniwch: 08702 430 100

Ymarferwyr Iechyd yr Amgylchedd (EHPau) yn paratoi ar gyfer newidiadau

Mae adrannau Iechyd yr Amgylchedd yn chwarae rôl ddeublyg dan Ddeddf Drwyddedu 2003. Pan wneir cais am y grant, amrywiad neu adolygu trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb, rhaid anfon copi i'r adran Iechyd yr Amgylchedd perthnasol, sydd, fel rhan o'r broses o wneud cais, yn gallu gwneud sylwadau fel "awdurdodau cyfrifol". Yn ogystal â hyn, tra bod trwydded neu dystysgrif mewn grym, mae Ymarferwyr Iechyd yr Amgylchedd (EHPau) wedi'u grymuso gan y Ddeddf i gynnal rolau archwilio a gorfodaeth, fel "personau awdurdodedig".

Nid yw'r Ddeddf yn disodli nac yn diystyru'r ddarpariaeth iechyd yr amgylchedd presennol, nac yn gwahardd neu gyfyngu'r defnydd o bwerau presennol EHPau o ran archwilio neu orfodaeth, er enghraifft, mewn perthynas â niwsans statudol dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Yn hytrach, mae'r Ddeddf yn darparu haen ychwanegol o graffu a gellir manteisio ar arbenigedd EHPau i ystyried y goblygiadau ar y grant neu adolygu awdurdodiad.

Pan na fo pwerau presennol EHPau yn cynnwys yn ddigonol weithgareddau penodol sy'n codi mewn mangre trwyddedig, gellir rhoi amodau atodol ynghlwm yn y drwydded. Er hynny, rhaid bod angen yr amodau hynny er mwyn hyrwyddo'u hamcanion trwyddedu ac ni ellir eu defnyddio i orfodi unrhyw gyfrifoldebau statudol.

Er mwyn sicrhau bod y newidiadau'n digwydd yn ddi-rwystr, mae'n hanfodol bod EHPau yn deall gofynion y gyfundrefn newydd a'r goblygiadau tebygol ynghlwm â'u rôl. Mae Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH) wedi trefnu cyfres o seminarau un dydd er mwyn paratoi EHPau ar gyfer gweithredu'r Ddeddf. Cynhaliwyd y seminar cyntaf ar 21 Medi a bydd y ddwy seminar arall yn cael eu cynnal ar Ddydd Mercher 10 Tachwedd ym Birmingham a Dydd Iau 18 Tachwedd yn Leeds.

Mae taflen ar y cyd wedi'i pharatoi gan LACORS a CIEH yn amlinellu goblygiadau Deddf Drwyddedu 2003 gyda golwg ar iechyd a diogelwch yn y gwaith. Mae manylion ar gael ar wefan CIEH: www.cieh.org.

Fforwm yn ymgynghori

Mae Feargal Sharkey, Cadeirydd Fforwm Cerddoriaeth Fyw, wedi ysgrifennu at brif weithredwr pob awdurdod lleol a swyddog celfyddydau yn Lloegr a Chymru i dynnu sylw at bwysigrwydd cerddoriaeth fyw. Mae'r llythyr, sydd wedi'i gefnogi gan LACORS a Chymdeithas Llywodraeth Leol, yn annog awdurdodau i gymryd mantais o'r 'cyfle unigryw' yn sgil y Ddeddf ac i fabwysiadu'r argymhellion yn y Canllawiau er mwyn hybu a hyrwyddo cerddoriaeth fyw wrth ddrafftio eu datganiadau polisi trwyddedu.

Mae'r llythyr yn cydnabod bod nifer o awdurdodau lleol wedi ymateb mewn 'dull cadarnhaol a neilltuol' ac mae'n apelio at yr awdurdodau hynny sy'n dal i ystyried eu datganiadau polisi trwyddedu drafft, i beidio â chau'r drws ar gerddoriaeth fyw, ac i ymgorffori hyblygrwydd i'w polisïau.

"Mae cerddoriaeth fyw yn chwarae rôl sylweddol iawn ym mywydau pob un ohonom, yn ddiwylliannol ac yn economaidd. Byddai'n gryn gamp yn y blynyddoedd nesaf, pe baem ni'n gallu codi'r ffigur o 1.7 miliwn o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw yn nes at 2 filiwn. Byddai hynny o fantais i gynulleidfaoedd, cerddorion ac economïau lleol."

Dangosodd arolwg cerddoriaeth fyw ddiweddar gan MORI bod tua 1.7 miliwn o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw wedi'u cynnal drwy Loegr a Chymru, ac mae 47% o sefydliadau a gafodd eu cyfweld wedi darparu o leiaf un digwyddiad cerddoriaeth fyw o fewn y 12 mis diwethaf.

I gael copi llawn o lythyr Feargal ewch i wefan y DCMS:www.culture.gov.uk/creative_industries/music/default.htm

Dyddiadur Digwyddiadau

4 Tachwedd
Richard Caborn yn siarad yng Nghynhadledd y Tafarnwyr yng Nghanolfan Gynhadledd y Frenhines Elizabeth [www.thepublican.com]

8 Tachwedd
Cynhadledd Ôl Ymgyrch Gorfodaeth Camddefnyddio Alcohol, yn yr Hilton, Park Lane [michelle.agostino@homeoffice.gsi.gov.uk]

10 Tachwedd
seminar Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd: 'Gorchmynion Olaf: Paratoi EHPau ar gyfer gweithredu Deddf Drwyddedu 2003' ym Mirmingham [k.eliot@chgl.com]

13 Tachwedd
Lansio'r Cit Cerddoriaeth Fyw yn Cerddoriaeth Fyw, NEC Birmingham [www.musiclive.co.uk]

16/17 Tachwedd
Ffederasiwn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas y Tafarnwyr yng Ngwesty St Nicholas, Scarborough [www.flva.co.uk]

17 Tachwedd
Richard Caborn yn siarad yng Nghinio Gwobrwyon Adwerthu Diodydd Cyfrifol yng Ngwesty Carlton Towers. [www.responsibledrinksretailing.co.uk]

18 Tachwedd
seminar Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd: 'Gorchmynion Olaf: Paratoi EHPau ar gyfer gweithredu Deddf Drwyddedu 2003' yn Leeds [k.eliot@chgl.com]

23 Tachwedd
Andrew McIntosh yn siarad yng Nghynhadledd Flynyddol Busnes mewn Chwaraeon a Hamdden yng Ngwesty'r Royal Lancaster, Hyde Park. [www.bisl.org]

23 Tachwedd
Cynhadledd Ymddiriedolaeth Ddinesig: Drwy'r Nos – Beth yw'r dyfodol ar gyfer Economi Nos Lloegr, yng Ngholeg Regent [www.civictrust.org.uk]

18 Tachwedd – 2 Rhagfyr
Sefydliad Cynhadledd Flynyddol Trwyddedu yng Ngwesty'r Grand, Blackpool [www.regionline.com i archebu lle/ Jeffrey.leib@watford.gov.uk i gael gwybodaeth].

8 Rhagfyr
Cynhadledd 2004 Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch/Pwyllgor Cydlynol Gorfodaeth Awdurdod Lleol (HELA) 'Y Bartneriaeth Newydd' yng Nghanolfan Gynhadledd y Frenhines Elizabeth [www.hse.gov.uk/lau/hela]

Rhifyn nesaf - Rhagfyr 2004. I gael mwy o wybodaeth am Ddeddf Trwyddedu 2003 a sut bydd yn effeithio arnoch, ewch i'n gwefan ar www.culture.gov.uk. Os oes gennych sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer erthyglau anfonwch e-bost: licensing.newsletter@culture.gsi.gov.uk. Er mwyn tanysgrifio er mwyn derbyn rhifynnau o Licensing Countdown yn y dyfodol drwy e-bost, ewch i www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment/licensing_newsletter

Cynigir cynnwys y tudalennau hyn fel canllaw gwybodaeth yn unig. Nid ydynt yn ddatganiad llawn ac awdurdodol o'r gyfraith ac nid ydynt yn cynnwys cyngor proffesiynol neu gyfreithiol. Nid yw unrhyw ddatganiad ar y tudalennau hyn yn disodli, ehangu, diwygio neu newid mewn unrhyw ffordd ddarpariaethau statudol Deddf Trwyddedu 2003 nac unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol.
Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon na'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon am unrhyw gamsyniad, esgeulustra neu ddatganiadau camarweiniol ar y tudalennau hyn, nac unrhyw safle y cyfeirir ato ar y tudalennau hyn. Dylid nodyn arbennig, er bod yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth ar y tudalennau hyn yn gywir, mae newidiadau yn y gyfraith a'r ffyrdd gweithredu yn golygu na ellir gwarantu bod y wybodaeth ar y tudalennau hyn yn gywir.